# JONES, LEWIS ('Rhuddenfab '; 1835 - 1915), argraffydd, bardd, a newyddiadurwr

**Enw:** Lewis Jones
**Ffugenw:** Rhuddenfab
**Dyddiad geni:** 1835
**Dyddiad marw:** 1915
**Rhiant:** Margaret Jones
**Rhiant:** John Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** argraffydd, bardd, a newyddiadurwr
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 15 Mehefin 1835 yn Stryt-y-Cerrig, gerllaw eglwys Llanfwrog, Rhuthyn, mab John a Margaret Jones. Ar 8 Ebrill 1845 rhwymwyd ef yn egwyddorwas, o dan Isaac Clarke, yn swyddfa argraffu Mrs. Nathan Maddocks, Rhuthyn. Bu'n cystadlu mewn rhai eisteddfodau ac yn beirniadu mewn eraill. Yn N.L.W. MS. 5515 ceir ganddo gofnodion pwyllgorau a gyfarfu yn Rhuthyn mewn cysylltiad â dathliad canmlwyddiant ysgolion Sul; yn N.L.W. MS. 5517 a 5518 y mae llythyrau a dderbyniodd oddi wrth lu o w r a oedd yn flaenllaw ym mywyd cyhoeddus a diwylliannol Cymru ei gyfnod; yn N.L.W. MS. 5517 ceir hefyd gopi o gyfres o erthyglau ganddo o dan y teitl ' Deugain mlynedd yn ôl. ' Bu farw 19 Ebrill 1915.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau


*Y Geninen* (G yl Dewi), 1920

*NLW MSS* 5512-21; 6975-8

[ Owen Williams, *Awduron Sir Ddinbych a'u gweithiau* (1937), 88]


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733791


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu